



# Polisi Cwricwlwm

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn nodi'r gofynion ar gyfer cwricwlwm cytbwys ac eang ei sail sy'n "paratoi...disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd pan fyddant yn oedolion."

Er ei fod yn bwysig cadw at hawl gyffredin, yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigad a Syr John Rhys teimlwn angen i gynnig llwybrau gwahanol drwy ddysgu hefyd er mwyn gweddu i ddoniau a diddordebau dysgwyr a bodloni dymuniadau cyflogwyr ac eraill. Rydyn ni'n parchu'r iaith Gymraeg fel cyfrwng dysgu ac yn anelu at sicrhau dwyieithrwydd gweithredol i bob disgybl-gweler y polisi iaith am fanylion pellach.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Y cwricwlwm yw'r gweithgareddau a drefnwn er mwyn hybu dysgu ac annog datblygiad personol y plant. Mae'n cynnwys pethau eraill yn ychwanegol at ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef y gweithgareddau allgyrsiol a drefnir er mwyn cyfoethogi profiad y plant. Mae'n cynnwys y "cwricwlwm cudd" hefyd, sef yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu o ddisgwyliadau eraill ohonynt ac o'r ffordd y cant eu trin. Ein hamcan yw addysgu plant fel eu bod yn tyfu'n oedolion cadarnhaol a chyfrifol, a fydd yn gallu gweithio a chyd-weithio gydag eraill, ac a fydd yn gallu cyrraedd eu llawn botensial am eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

## 2. Gwerthoedd

2.1 Mae cwricwlwm Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys wedi ei selio ar y gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni. Y cwricwlwm yw'r modd yr ydym yn llwyddo yn y bwriad o addysgu'r plant mewn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fel eu bod yn gallu dilyn bywydau gwerthfawr.

2.2 Dyma'r prif werthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm:

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod pob plentyn yn unigryw, ac mae ein cwricwlwm yn hybu parch at farn plant unigol, ynghyd a pharch at ddiwylliannau eraill. Rydyn ni'n

credu bod datblygiad ysbrydol a moesol pob person yn bwysig , ynghyd a'u tyfiant corfforol a deallusol.

☐ Rydyn ni'n gweld gwerth ym mhob aelod o'r gymuned. Mae'r cwricwlwm yn cael ei drefnu fel bod cydweithrediad a dealltwriaeth rhwng aelodau'r gymuned yn cael eu hybu.

☐ Rydyn ni'n gwerthfawrogi hawliau pawb yn y gymdeithas. Rydyn ni'n parchu'r plant fel unigolion, ac yn eu trin yn deg ac yn onest. Rydyn ni'n anelu at alluogi pawb i lwyddo, ac rydyn ni'n darparu cyfle cyfartal i bob plentyn.

☐ Rydyn ni'n parchu'n hamgylchfyd, a thrwy gyfrwng y cwricwlwm rydyn ni'n ceisio dysgu parch at y byd. Rydyn ni'n sôn am bwysigrwydd gofalu am y byd er mwyn cenedlaethau sydd eto i ddod.

### **3. Nod ac amcanion**

#### **3.1 Nod y cwricwlwm yw:**

- I sicrhau bod ein dysgwyr yn uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- I sicrhau bod ein dysgwyr yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- I sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- I sicrhau bod ein dysgwyr yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas;
- I gynnig addysg ddwyieithog fydd yn galluogi pob plentyn i gyrraedd hyfedredd cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- I sicrhau bod pawb yn gweithio at alluogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial yn y Sgiliau Sylfaenol, sef Llythrennedd, Rhifedd, TGCh a sgiliau meddwl;
- I alluogi pob unigolyn i ddod yn hyderus ac yn annibynnol yn ei ddysgu.
- I ddatblygu'r Gymraeg fel iaith gyfrwng yn addysgol ac yn gymdeithasol;
- I alluogi pob plentyn i ddatblygu ei hunaniaeth ddiwylliannol ei hun ac ar yr un pryd hyrwyddo ei ddealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a'u parchu;
- I gael awyrgylch agored glòs sy'n cynnwys rhieni, y gymuned a'n holl randdeiliaid.
- I ddarparu amgylchfyd dysgu diogel, iachus sy'n sbarduno ac sy'n cefnogi lles emosiynol a chorfforol pob plentyn.
- I annog pob plentyn i ddatblygu a magu hyder, parch a balchder yn eu hunain

ac eraill.

- I ddarparu profiadau eang a heriol a fydd yn galluogi'r plant i gyfrannu yn hyderus mewn cymuned ddwyieithog a bod yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol a'u hunaniaeth genedlaethol.
- I ddarparu dechrau da mewn bywyd, i bob plentyn, gan weithredu amrywiol strategaethau dysgu sydd â sgiliau fel sylfaen, ac sy'n hyrwyddo ymrwymiad i ddysgu.
- Cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Maes Llafur Lleol mewn Addysg Grefyddol;

#### 4. Datblygiad y Cwricwlwm

Yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys rydym yn anelu at y nod o ddatblygu cwricwlwm gyda gweithgareddau dysgu priodol sy'n:

- Canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac yn eu diwallu
- Cynhwysol ac yn cynnig cyfle cyfartal
- Rhoi sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr

- Hyrwyddo dwyieithrwydd gweithredol yn effeithiol
- Perthnasol, heriol, diddorol ac yn cynnig mwynhau i bob dysgwr
- Trawsnewid dysgu i gynhyrchu dysgwyr gydol oes ddyfeisgar, gadarn a myfyriol
- Cyraeddadwy ac iddo adnoddau digonol.

## 5. Trefniadaeth a Chynllunio

5.1 Rydyn ni'n cynllunio'r cwricwlwm mewn tri chyfnod. Rydyn ni'n cytuno ar gynllun hirdymor ar gyfer pob cyfnod allweddol. Mae'r cynllun hwn yn dangos beth sy'n mynd i gael ei addysgu ym mhob tymor i bob Blwyddyn ysgol. Rydyn ni'n adolygu'r cynllun hirdymor fel rhan o'r broses adolygu.

5.2 Mae gennym gynlluniau gwaith sy'n gosod arweiniad eglur ynglŷn â nod ac amcanion y strategaethau dysgu a defnyddir. Dyma a elwir yn gynllun tymor canol.

5.3 Y cynlluniau byr dymor yw'r rhai a ysgrifennir yn bythefnosol. Yma, gosodir allan y sgiliau ar gyfer bob sesiwn, a nodir pa adnoddau a gweithgareddau a ddefnyddir. Rydyn ni hefyd yn clustnodi cyfleoedd asesu fel bod gwybodaeth werthfawr gennym ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Mae'r cyfan yn cael eu cynllunio ar rhaglen CWMPAWD er mwyn tracio sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.

5.4 Yn y Blynyddoedd Cynnar rydyn ni'n defnyddio argymhellion Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen av yn dechrau symud i ddibenion a gofynion y Cwricwlwm Newydd. Mae'r gweithgareddau yn cael eu cynllunio yn ofalus er mwyn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y gwaith.

5.5 Ym mlynnyddoedd 3 i 6 fe addysgir y pynciau craidd yn drawsgwricwlaidd. Yn ystod y flwyddyn addysgiadol bydd pob plentyn wedi cael cyfle i brofi'r ystod lawn o bynciau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac wedi dechrau profi pwysigrwydd y Cwricwlwm Newydd.

## 6. Plant ag Anghenion Arbennig

6.1 Mae cwricwlwm ein hysgol wedi ei greu er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn. Os credwn fod angen addasu'r cwricwlwm i gwrdd ag anghenion arbennig plentyn unigol, yna gwnawn hynny ar ôl ymgynghori gyda rhieni'r plentyn ac arbenigwyr eraill pe bai'r angen.

6.2 Os oes anghenion arbennig gan blentyn, mae ein hysgol yn ceisio ei gorau i gwrdd â'r anghenion hynny. Rydyn ni'n cyflawni'r gofynion a osodir yn y Cod Ymddygiad ADY wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Os yw plentyn yn dangos arwyddion o fod ag anghenion arbennig, bydd yr athro/awes yn cynnal asesiad. Fel arfer bydd yr athro/awes yn gallu darparu adnoddau a chyfluoedd addysgu er mwyn cwrdd â'r anghenion o fewn trefniadaeth arferol dosbarth. Os yw angen y plentyn yn fwy dwys, rydyn ni'n ystyried a oes angen datganiad o anghenion arbennig ar y plentyn, a gwawn hyn mewn ymgynghoriad ad asiantaethau allanol perthnasol. Rydyn ni bob amser yn darparu adnoddau a chymorth ychwanegol.

6.3 Mae'r ysgol yn paratoi Cynllun Addysg Personol ar gyfer yr holl blant sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynllun yn gosod allan beth yw natur eu hanghenion, ac mae'n amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu cwrdd â'r angen. Mae'r cynllun hefyd yn gosod allan beth yw'r targedau ar gyfer ddangos cynnydd, fel y gallwn adolygu a monitro datblygiad y plentyn yn gyson.

## 7. Y Blynyddoedd Cynnar

7.1 Mae'r cwricwlwm yn y Blynyddoedd Cynnar yn dilyn gofynion y Canlyniadau Dymunol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae ein cynllunio yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau a'r profiadau a nodir yn y ddogfen hon.

7.2 Yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys rydym yn credu'n gryf bod plant ifanc yn dysgu wrth chwarae, ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig sydd wedi eu cynllunio'n ofalus. Rydyn ni'n ceisio datblygu partneriaeth dda gyda'r Ysgol Feithrin gan sicrhau sesiynau Pontio cysgon ac effeithiol

7.3 Yn ystod y tymor cyntaf yn y dosbarth derbyn, mae'r athro/awes yn cynnal asesiad gwaelodlin er mwyn recordio sgiliau'r plant unigol ar gychwyn eu gyrfa ysgol. Mae'r asesiad hwn yn bwysig wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer pob plentyn i'r dyfodol.

7.4 Rydyn ni'n ymwybodol iawn bod angen cefnogaeth rhieni ac athrawon er mwyn i blant ddangos cynnydd yn yr ysgol. Rydyn ni'n ymdrechu i gysylltu i gysylltu gyda rhieni plant er iddynt wybod beth yw natur addysg a chynnydd eu plant.

## 8. Sgiliau Allweddol

8.1 Dyma'r Sgiliau Allweddol fel y'u henwir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Cwricwlwm Cymreig
- Sgiliau mathemateg
- Sgiliau technoleg gwybodaeth
- Sgiliau Datrys Problemau
- Sgiliau Creadigol

## Addysg Personol a Chymdeithasol

8.2 Rydyn ni'n cyfeirio at y sgiliau hyn yn ein cynlluniau a'n polisiau er mwyn gallu monitro cynnydd plant yn yr holl ardaloedd. Ar gyfer datblygu medrau allweddol y disgyblion ym Mathemategol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac yn leithyddol 'rydym yn cysylltu â dangos dilyniant y medrau o fewn ein themâu a'n gwersi yn dymhorol ac yn ôl y dosbarthiadau a addysgir. Mae pob pwnc yn cyfrannu at ddatblygiad y plant yn y medrau allweddol. Rydyn ni'n credu bod angen i bob plentyn gynyddu yn y medrau allweddol er mwyn ymgynraedd at eu potential llawn. Wrth i'r cynlluniau gwaith gael eu hadolygu rydyn ni'n clustnodi'r sgiliau allweddol.

## 9. Rôl yr arweinydd Pwnc

### 9.1 Rôl yr arweinydd pwnc yw:

- Darparu arweiniad a chyfeiriad ar gyfer y pwnc
- Cefnogi'r staff a chynghori ynglŷn â materion yn ymwneud â'r pwnc;
- Monitro datblygiad y disgyblion o fewn y pwnc;
- Darparu rheolaeth effeithiol o'r adnoddau ar gyfer y pwnc.

9.2 Rydyn ni'n rhoi amser digyswllt i'r arweinyddion pwnc, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai'r arweinydd pwnc wybod am y datblygiadau diweddaraf yn eu pwnc, ar lefel cenedlaethol a lleol. Maen nhw'n adolygu'r modd y caiff pwnc ei addysgu yn yr ysgol, ac maent yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynllunio yma yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol yr ysgol gyfan. Mae'r arweinydd pwnc yn adolygu'r cynlluniau cwricwlwm ar gyfer eu pwnc, er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei gwrdd yn llawn. Maent hefyd yn sicrhau bod parhad a dilyniant yn rhan o'r cynlluniau gwaith. Maent hefyd yn cadw portffolio o waith plant, er mwyn dangos lefelau cyraeddiadau plant o fewn y cyfnodau allweddol a dangos enghreifftiau o'r hyn a ddisgwylir.

## 10. Monitro ac adolygu

10.1 Y pennaeth, pennaeth Cynorthwyol a'r Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn cael ei weithredu. Mae'r pwyllgor hwn yn adolygu pob pwnc Cwricwlaidd yn reolaidd.

10.2 Mae gennym lywodraethwyr wedi eu henwi i fod yn gyfrifol am gysgodi arweinyddion pynciol. Maent yn cysylltu gyda'r arweinyddion pwnc ac yn ran o fonitro ac arsylwi gwersi.

10.3 Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth ddyddiol y cwricwlwm. Mae'n monitro'r cynlluniau gwersi ar gyfer yr ho ll athrawon, er mwyn sicrhau bod y gwersi yn dilyn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframweithiau a bod sgiliau dysgu addas i'r gwersi.

10.4 Mae'r arweinyddion pwnc yn monitro'r ffordd y caiff y pwnc ei addysgu yn yr ysgol. Maent yn edrych ar y cynllunio hirdymor, er mwyn sicrhau bod strategaethau perthnasol yn cael eu defnyddio. Mae'r arweinyddion pwnc hefyd yn gyfrifol am fonitro'r defnydd a'r rheolaeth o'r adnoddau.